**EOC-07-01(p3)**

# PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

| | |
|---|---|
| Dyddiad | Dydd Mercher 31 Hydref 2001 |
| Amser: | 9.30am |
| Lleoliad | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## SIPSIWN CRWYDROL YNG NGHYMRU: PAPUR AR GYFER PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad o bolisiau'r Cynulliad Cenedlaethol tuag at Sipsiwn Crwydrol.

### Argymhellion

2. Bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn:

- Adolygu polisiau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Sipsiwn Crwydrol, gan dderbyn tystiolaeth oddi wrth y cyrff ac unigolion perthnasol a, lle bo'r angen yn comisiynu ymchwil berthnasol:
- Ystyried esiamplau o arfer da a ddatblygwyd mewn ardaloedd eraill os ydynt yn berthnasol i Gymru; ac yn,
- Gwneud yr argymhellion priodol i Weithrediaeth y Cynulliad.

### Cefndir

3. Mae polisi'r Cynulliad Cenedlaethol tuag at Sipsiwn Crwydrol yn dyddio yn ôl i ddyddiau'r hen Swyddfa Gymreig. Mae'r polisi wedi datblygu'n annibynnol ar draws y gwahanol wasanaethau ond, hyd yn hyn, ni welwyd dull cyd-drefnedig o weithredu. Yn ogystal, nid yw'r polisi mewn perthynas â Sipsiwn Crwydrol wedi esblygu'n sylweddol ac ychydig iawn o sylw a roddwyd i werthuso'r arferion da a ddatblygwyd mewn meysydd eraill o ran eu perthnasedd i Gymru.

4. Mae'r papur sydd ynghlwm yn amlinellu polisiau cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol at Sipswn Crwydrol, gan ganolbwyntio'n benodol ar addysg, iechyd, darparu llety a phlismona. Mae'n amlinellu nifer o faterion mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth hyn ac fe ddangosa'r cymariaethau gydag arferion eraill, yn enwedig yn Lloegr.

5. Mae'r papur yn cynnig y dylid gweld dull mwy integredig o weithredu at bolisi Sipsiwn Crwydrol ar draws y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried a oes angen:

- Dull gwahanol o weithredu tuag at Sipsiwn Crwydrol, neu a ddylid gwasanaethu'u hanghenion yn fwy priodol gan bolisiau'r Cynulliad tuag at y grwpiau sydd o dan anfantais;
- Ystadegau ar nifer y Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru i hwyluso cynllunio gwasanaethau, a sut y gellir casglu'r ystadegau hyn;
- Dulliau gwahanol o weithredu i gwrdd ag anghenion addysg, hyfforddiant a iechyd y Sipsiwn Crwydrol ac i ddarparu cefnogaeth i fusnesau Sipsiwn Crwydrol;
- I'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau adnoddau er mwyn gwella safleoedd Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru ac i gynyddu'r ddarpariaeth o lety sydd ar gael iddynt;
- Adolygiad a ddylid darparu cefnogaeth i awdurdodau lleol a chyrff eraill ar gyfer Sipsiwn Crwydrol ar ffurf grantiau penodol i sicrhau bod yr arian yn cael ei dargedu ar anghenion penodol y Sipsiwn Crwydrol ac nid yn cael ei wario at ddibenion eraill.

6. Mae'r adroddiad yn argymell bod y Pwyllgor yn adolygu polisiau'r Cynulliad mewn perthynas â Sipsiwn Crwydrol ac yn derbyn tystiolaeth oddi wrth gyrff ac unigolion perthnasol a lle bo'n briodol yn comisiynu ymchwil. Mae rhestr o'r unigolion a'r sefydliadau y gallai'r Pwyllgor gysylltu â hwy ar gael yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.

## Goblygiadau Ariannol

7. Mae'r anodd iawn ceisio amcangyfrif y costau i'r Pwyllgor ar gyfer mynd i'r afael ag adolygiad o bolisi Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru. Byddai costau'r adolygiad yn amrywio ac yn dibynnu ar y ffordd y byddai'r adolygiad yn cael ei gyflawni. Gan gymryd yn ganiataol y byddai'r Pwyllgor yn cytuno i glywed tystiolaeth lafar mewn 4 neu 5 lleoliad ar wahân drwy Gymru ac ymweld ag Iwerddon a'r Alban, fe allai'r costau fod tua £50,000. Byddai hyn yn cynnwys talu costau teithio y rhai hynny sy'n mynychu gwrandawiadau'r pwyllgor, costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Pwyllgor, llogi llety i glywed tystiolaeth ar lafar, darparu gwasanaeth cyfieithu, comisiynu'r ymchwil berthnasol, penodi ymgynghorydd arbenigol, a chyhoeddi adroddiadau drafft a therfynol yr ymchwiliad.

## Deddfau

8. Byddai'r archwiliad arfaethedig i Sipsiwn Crwydrol yn cael ei gwblhau o dan Adran 33 o Ddeddf

Llywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried a gwneud y sylwadau perthnasol ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

9. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb dros y rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaethu megis addysg, iechyd, tai a chynllunio a darparu safleoedd i Sipsiwn Crwydrol, sef testun yr adolygiad hwn. Nid yw'n goruchwylio plismona yng Nghymru, sydd yn gyfrifoldeb i'r Swyddfa Gartref, er bod y Canllawiau ar Arferion Da mewn perthynas â Gwersylla Heb Ganiatâd, yn annog yr heddlu a'r awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn datrys problemau sy'n codi o ganlyniad i wersylloedd heb ganiatâd.

Swyddog Cyswllt: Ian Thomas

Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol

Est 3179